# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 7

GORCHMYNION SY'N GWAHARDD GWAITH MEWN GOFAL CYMDEITHASOL: PERSONAU ANGHOFRESTREDIG

*Darpariaeth atodol*

### 172 Rhestr o bersonau sydd wedi eu gwahardd

(1) Rhaid i GCC sefydlu a chynnal rhestr o bersonau y mae gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd interim yn cael effaith mewn cysylltiad â hwy.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

- (a) ffurf a chynnwys y rhestr;
- (b) pa un a yw'r rhestr, neu wybodaeth benodedig o'r rhestr, i'w chyhoeddi ai peidio;
- (c) rhoi'r rhestr ar gael—
  - (i) i bersonau o ddisgrifiad penodedig, neu
  - (ii) er mwyn i'r cyhoedd edrych arni.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 172 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 172 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(f)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

## 173 Safonau ymddygiad

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i GCC benderfynu ar y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth berson sy'n cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig.

(2) O ran GCC—

(a) rhaid iddo gadw'r safonau o dan adolygiad, a

(b) caiff newid neu ddisodli'r safonau.

(3) Rhaid i GCC gyhoeddi—

(a) y safonau, a

(b) os caiff y safonau eu newid neu eu disodli, y safonau sydd wedi eu newid neu'r safonau newydd.

(4) Rhaid i GCC drwy reolau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn i'w dilyn wrth benderfynu ar y safonau.

(5) Caiff rheolau a wneir o dan is-adran (4), yn benodol—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch y meini prawf y penderfynir ar y safonau drwy gyfeirio atynt;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer cadw'r safonau o dan adolygiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 173 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I4** A. 173 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(f)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Darpariaeth atodol.